

Annwyl yr Athro Iwan Davies, Is-ganghellor Prifysgol Bangor,

Ysgrifennwn atoch i fynegi ein pryder difrifol ynghylch bwriad y Brifysgol i drosglwyddo rhai o swyddogaethau ac adrannau Canolfan Bedwyr i rannau eraill o'r Brifysgol.

Fe gydnabyddir y Ganolfan fel canolfan ieithyddol o bwys cenedlaethol a rhynglwadol. Byddai trosglwyddo adrannau Gloywi Iaith, Technoleg Iaith ac Adran Safonau (ac unrhyw adran arall) o Ganolfan Bedwyr i'r Gwasanaethau Academaidd a Chorfforaethol y Brifysgol yn arwain at wanhau'r Ganolfan hollbwysig hon gan beryglu statws gwaith ymchwil am y Gymraeg. Mae sicrhau bodolaeth a pharhad canolbwynt ar gyfer gwaith ymchwil polisi iaith yn y Brifysgol yn hanfodol; mi fyddai teneuo Canolfan Bedwyr a throsglwyddo nifer o'i swyddogaethau a'i hadrannau i'r Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain at chwalu ei holl bwrpas.

Nid oes unrhyw reswm i feddwl y byddai Gwasanaethau Corfforaethol y Brifysgol yn cyflawni rôl y Ganolfan i'r un safon ac effeithioldeb - yn wir, pryderwn y byddai'n arwain at ostyngiadau yn y manau hyn. Pryderwn ymhellach mai cyfiawnhad ariannol yn unig sydd i'r penderfyniad hwn ac nad yw'r Brifysgol wedi rhoi ystyriaeth ddigonol tuag at ei goblygiadau ieithyddol. Byddem hefyd yn cwestiynu'r syniad y byddai'r penderfyniad hwn mewn difrif yn arwain at wneud arbedion ariannol ac mae'r angen i wneud arbedion yn ymddangos i ni fel esgus i ad-drefnu.

Yn olaf, hoffem bwysleisio pwysigrwydd Canolfan Bedwyr i'r Gymraeg ym Mangor, yng Ngwynedd, ac yn wir yng Nghymru gyfan. Byddai'r cynlluniau hyn i deneuo'r Ganolfan yn gam mawr yn ôl i'r Gymraeg yn y ddinas, y sir a'r wlad. **Rydym yn erfyn arnoch i ail-ystyried eich cynlluniau presennol ar gyfer dyfodol Canolfan Bedwyr, ac yn galw am gyfarfod brys rhyngoch chithau a ninnau i drafod y mater ymhellach.**

Edrychwn ymlaen at glywed yn ôl gennych.

Yr eiddoch yn gywir,

Toni Schiavone
Is-gadeirydd Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith